

Atodiad 10 - Tystiolaeth gan sefydliadau eraill

Ymddiriedolaeth Gofalwyr

1. Elusen yn y DU yw Ymddiriedolaeth Gofalwyr sy'n gweithio i drawsnewid bywydau gofalwyr di-dâl ledled y DU. Dywedodd ei fod yn partneru, yng Nghymru, â rhwydwaith o 9 sefydliad gofalwyr lleol i ddarparu cyllid a chymorth, darparu rhaglenni arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chodi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar bolisi. Gweledigaeth Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yw bod gofalwyr yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gyda mynediad at gymorth, cyngor ac adnoddau i'w galluogi i fyw bywydau bodlon.
2. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr, er bod mynediad at asesiadau wedi gwella ers y pandemig, ei fod yn dal yn bryderus nad oedd digon o ofalwyr di-dâl yn cael asesiad o'u hanghenion, gan fod awdurdodau lleol dan bwysau. Nododd fod amseriad asesiad yn bwysig, gan nad oedd anghenion llawer o ofalwyr yn cael eu hasesu nes iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.
3. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr fod gofalwyr yn aml yn ansicr a yw eu hanghenion wedi cael eu hasesu, gan nad oeddent yn glir a oedd eu hanghenion eu hunain wedi cael eu hasesu fel rhan o'r asesiad ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano. Dywedodd, hyd yn oed pan oedd anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu, nid oeddent yn siŵr o'r canlyniad a beth, os o gwbl, oedd yn ei le ar eu cyfer. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr fod hyn yn dangos pwysigrwydd darparu copi ysgrifenedig o'u hasesiad i ofalwyr.
4. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr, lle'r oedd sefydliadau gofalwyr wedi cwblhau asesiadau o anghenion, roedd yr amser a gymerwyd i gymryd camau pellach ar ôl i asesiad gael ei gyfeirio'n ôl at yr awdurdod lleol i'w adolygu, yn rhwystr. Roedd yn cydnabod ei bod yn debygol y byddai oedi wrth sicrhau pecyn gofal, neu seibiannau byr ac egwyl, oherwydd capasiti Gweithiwr Cymdeithasol a'r argyfwng gofal cymdeithasol.
5. Rhwystr arall a nododd Ymddiriedolaeth Gofalwyr oedd hunan-gydnabod, gyda llawer o ofalwyr ddim yn dynodi eu hunain yn ofalwr di-dâl.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

6. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (“CPHC”) ei bod yn bwysig sicrhau bod hawliau’r gofalwr, a hawliau’r rhai y maent yn gofalu amdanynt, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf GCLl”) a'r Rheoliadau a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, wedi'u cynnal yn briodol. Dywedodd na ddylai unrhyw un sy'n darparu gofal di-dâl golli'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo; dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif pan ddaw'n fater o nodi gofalwyr di-dâl o fewn y gymuned.
7. Amlygodd CPHC fod tua 55% o ofalwyr yng Nghymru dros 55 oed, sy’n golygu bod tua 275,000 o ofalwyr hŷn yng Nghymru erbyn hyn.¹ Dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod y Ddeddf GCLl yn cael ei gweithredu’n llawn drwy fynd ati’n rhagweithiol i hyrwyddo hawliau gofalwyr. Dywedodd fod angen casglu data’n well hefyd i roi sicrwydd bod hawliau’n cael eu gweithredu’n briodol ac i sicrhau nad oedd pobl amrywiol sy’n darparu gofal di-dâl dan anfantais o ran mynediad at gymorth.
8. Dywedodd CPHC, er nad oedd pob ymholiad i’w Wasanaeth Cyngor a Chymorth yn ymwneud â gofal cymdeithasol ac, yn benodol, mynediad at asesiad o anghenion gofalwr, roedd rhai themâu neu faterion cyffredin yn deillio o waith achos i roi darlun Cymru- gyfan.
9. Dywedodd CPHC fod diffyg cynigion rhagweithiol o asesiadau o anghenion gofalwr gan weithwyr proffesiynol, hyd yn oed pan oedd yn amlwg y byddai person yn darparu gofal fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth eu hanwyliaid; rhoddodd hyn y baich annheg ar y gofalwr i gael gwybodaeth fanwl am ei hawliau o dan y Ddeddf GCLl. O ystyried nad oedd llawer o bobl hŷn yn ymwybodol o’u hawliau ac felly nad oeddent yn gwybod bod ganddynt yr hawl i asesiad o anghenion gofalwr, roedd pobl hŷn a oedd yn darparu gofal di-dâl yn colli allan ar y cymorth a allai eu helpu yn eu rôl ofalu.
10. Dywedodd CPHC y gallai allgáu digidol fod yn ffactor yn y diffyg ymwybyddiaeth o hawliau pobl i gael asesiad o anghenion gofalwr, gan mai dim ond ar-lein yr oedd modd cyrchu llawer o’r wybodaeth a oedd ar gael. Yn yr un modd, roedd gwybodaeth am sut i gyrchu gofal cymdeithasol ar wefannau awdurdodau lleol yn aml yn cyfeirio pobl at

¹Gofalwyr Cymru (2020) Adroddiad Ymchwil Wythnos Gofalwyr 2020: Y cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl yn ystod brigiad o achosion Coronafeirws (COVID-19). Ar gael yn: <https://bit.ly/3vQ9yBC> Gofalwyr Cymru (2022) Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2022 Ciplun o ofal di-dâl yng Nghymru. Tachwedd 2022. Ar gael yn: https://www.carersuk.org/images/State_of_caring_in_Wales/Compressed_Carers_Wales_State_of_Caring_in_Wales__2022_report_English_final.pdf

gynnwys ar-lein, gyda rhifau ffôn weithiau yn anodd dod o hyd iddynt ar gyfer y sawl sydd am siarad â gweithiwr proffesiynol.

11. Dywedodd fod amseroedd aros ar gyfer asesiadau gofal a chymorth ac asesiadau o anghenion gofalwyr yn bryder parhaus, yn enwedig o ystyried y pwysau presennol ar ofal cymdeithasol. Tynnodd CPHC sylw at enghreifftiau lle na fu unrhyw gyswllt gan yr awdurdod lleol, yn dilyn asesiad gofal a chymorth cychwynnol, gan arwain at berson yn gorfod parhau i ddarparu gofal di-dâl, er gwaethaf ceisio cymorth. Yn yr un modd, ar gyfer y gofalwyr di-dâl hynny a oedd yn aros am gynllun gofal a chymorth, maent wedi gorfod parhau i ddarparu gofal, yn aml ar draul eu llesiant a'u cyflogaeth/cyllid eu hunain.

12. Dywedodd CPHC y gall seibiant fod yn achubiaeth hanfodol. Pan fydd gwasanaeth neu weithgaredd seibiant wedi cau neu wedi newid, nid oedd hyn bob amser yn ysgogi adolygiad o Gynllun Cymorth i Ofalwyr, fel y gellid disgwyl. Dylid ystyried dewisiadau eraill, megis archwilio'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol i liniaru colli gwasanaeth seibiant, ond ni ddigwyddodd hyn bob amser.

13. Mae CPHC yn credu bod rôl i bob gweithiwr proffesiynol mewn gwasanaethau allweddol, sef bod ganddynt gyswllt rheolaidd â gofalwyr i'w hysbysu am eu hawl i asesiad o anghenion gofalwr, trwy wneud i bob cyswllt gyfrif. Dywedodd ei swyddfa ei bod yn ymwybodol o enghreifftiau lle'r oedd gofalwyr wedi bod mewn cysylltiad ag adrannau awdurdodau lleol eraill y tu allan i Ofal Cymdeithasol, er enghraifft, addasiadau i'r cartref, neu ryddhau o'r ysbyty, lle na ddigwyddodd hyn a bod gofalwyr di-dâl yn cael trafferth ymdopi.

14. Roedd CPHC yn pryderu am y diffyg data cydraddoldeb a gasglwyd mewn perthynas â darpariaethau'r Ddeddf GCLI. Dywedodd nad oedd y setiau data cenedlaethol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o dan y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd ar unrhyw ddata yn ôl oedran ac, fel y cyfryw, nid oedd proffil oedran y bobl a oedd yn cael asesiad o anghenion gofalwr, neu Gynllun Cymorth, yn hysbys. Yn yr un modd, nid oedd proffil oedran gofalwyr a oedd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol yn hysbys, ac felly hefyd broffil oedran y bobl a oedd yn ceisio gwybodaeth am ofal cymdeithasol neu'n gofyn am eiriolaeth annibynnol. Dywedodd, heb ddata cydraddoldeb a gasglwyd, bod llawer o grwpiau o bobl, gan gynnwys pobl hŷn, yn anweledig.

15. Darparodd CPHC 4 enghraifft o achosion: 1 o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, 2 o ardal Cyngor Sir Ceredigion ac 1 o ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Nid oedd ganddo unrhyw achosion yn ymwneud ag Asesiadau Cymorth o ardal Cyngor Sir y Fflint.

16. Roedd yr enghraifft o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymwneud â newid yng ngallu'r gofalwr i ddarparu gofal a dywedwyd wrthynt na ddylent fod wedi cytuno i ddarparu gofal pe na baent yn gallu gwneud hynny ac na allai'r Cyngor helpu i lenwi'r bwlch mewn gofal. Dywedodd CPHC fod yr enghraifft hon yn amlygu'r diffyg posibl o adolygiadau parhaus o Gynlluniau Cymorth, i sicrhau bod anghenion gofalwr yn cael eu diwallu, wrth i sefyllfaoedd newid.

17. Roedd yr enghraifft gyntaf o ardal Cyngor Sir Ceredigion yn ymwneud â phryderon gan ofalwr am yr oedi cyn ail-agor canolfannau dydd i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, yn dilyn y pandemig. Nid oedd y gofalwr wedi cael asesiad o anghenion y gofalwr. Yn dilyn cymorth gan swyddfa CPHC, roedd y gofalwr yn gallu sicrhau rhywfaint o gymorth seibiant, trwy Daliadau Uniongyrchol. Amlygodd yr achos hwn diffyg o ran cynnig asesiad o anghenion gofalwr yn rhagweithiol, hyd yn oed pan oedd gofalwr wedi'i nodi yng Nghynllun Gofal a Chymorth y person y maent yn gofalu amdano. Mae hefyd yn tynnu sylw at y diffyg o ran defnyddio Taliadau Uniongyrchol, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn.

18. Roedd yr ail enghraifft o ardal Cyngor Sir Ceredigion yn ymwneud â pherson yn derbyn gofal gan aelod o'r teulu. Holwyd ynghylch sicrhau addasiadau i'r cartref a Bathodyn Glas a mynegwyd pryderon ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd iddi pe na bai aelod o'i theulu yn gallu gofalu amdanynt fwyach. Cawsant eu cyfeirio at y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio². Rhoddwyd cyngor a chymorth i'r person gan CPHC, gan gynnwys sut y gallant, ac aelod o'i deulu, ofyn am asesiad gofal a chymorth ac asesiad o anghenion gofalwr, yn y drefn honno. Roedd hyn yn dangos diffyg o ran cynnig asesiad o anghenion gofalwr yn rhagweithiol, a'r angen i wneud mwy i ddiogelu trefniadau gofal brys.

19. Roedd yr enghraifft o ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ymwneud ag oedi wrth ddarparu darparwr gofal cartref newydd i'w hanwlyd, gan olygu bod yr unigolyn yn wynebu'r posibilrwydd o orfod cymryd absenoldeb di-dâl am gyfnod amhenodol, i ofalu am ei anwlyd, a achosodd lawer iawn o straen. Nodwyd darparwr gofal cartref newydd, ar ôl i

²Gwasanaeth sy'n darparu atgyweiriadau, addasiadau a chynnal a chadw cartrefi i bobl hŷn i'w helpu i fyw'n annibynnol.

swyddfa CPHC ddod i gysylltiad. Amlygodd hyn y diffyg cynnig rhagweithiol o asesiad o anghenion gofalwr gan yr awdurdod lleol.